COFNOD O GANLYNIADAU FESTIVAL 2022 LTD GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD (ARAC) DRWY OHEBIAETH E-BOST

(y "**Cwmni**" a "**Festival 2022 Ltd**")
(y "**Rhaglen**" ac "**UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU**")

Ymateb:

Faraz Tasnim (FT)	ARAC Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol
Amali de Alwis MBE (AdA)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Roger Lewis (RL)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon

Cyflwyniad

Trefnwyd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) gael ei gynnal 09 Mehefin 2022, 15:30 – 17:00. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu hosgoi, gohiriwyd y cyfarfod. Nid oedd y tîm yn gallu trefnu dyddiad arall ar gyfer y cyfarfod ARAC pan allai cworwm fod yn bresennol felly cytunwyd rheoli'r busnes drwy ohebiaeth.

Anfonodd Phil Batty (Cyfarwyddwr Gweithredol) e-bost i'r Cyfarwyddwyr yn gofyn iddynt yn swyddogol am ystyried Pecyn y Pwyllgor a oedd wedi'i lanlwytho i'r VBR ar gyfer y cyfarfod ar 9 Mehefin gyda chais gan bob Cyfarwyddwr ar 17 Mehefin 2022, 13:03, yn gofyn am ohebiaeth ysgrifenedig gan bob Cyfarwyddwr ar eitemau mewn cysylltiad â'r agenda erbyn 21 Mehefin 2022 cyn cyfarfod y Bwrdd ar 22 Mehefin 2022. Ochr yn ochr â hyn, darparodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf fanwl am lwybr critigol SEE MONSTER a hysbysodd ARAC fod amodau Porth 2 wedi'u bodloni.

Canlyniadau penderfyniadau

Cafwyd gohebiaeth ysgrifenedig gan bob aelod pleidleisio o Bwyllgor ARAC. Dyma ganlyniadau'r penderfyniadau:

- CYMERADWYWYD Cofnodion y Cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2022.
- CYMERADWYWYD Cofnodion y Cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2022.
- CYMERADWYWYD Cofnodion y Cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 12 Mai 2022.
- NODWYD Diweddariad y Rhestr Camau Gweithredu.
- ADOLYGWYD a CHYMERADWYWYD Adroddiad Sicrwydd Bwrsari TDM a NODWYD cynnwys adroddiad y Weithrediaeth.
- NODWYD a CHYMERADWYWYD y Diweddariad Rheoli Risg Strategol a Chrynodeb Gweithredol yr Adroddiad Portffolio.
- NODWYD a CHYMERADWYWYD y diweddariadau a ddarparwyd gan yr Archwilwyr Mewnol.
- ADOLYGWYD y Diweddariad Terfynu, ond teimlwyd bod angen cyfarfod ARAC i drafod hyn ymhellach ac ystyried y risgiau a'r adroddiad cyffredinol.
- CYMERADWYWYD yr Adroddiad Perfformiad Ariannol.
- CYMERADWYWYD y llythyr cadarnhau yn y Memorandwm Sicrwydd Llywodraethu Blynyddol ac ADOLYGWYD yr adroddiad ategol.
- CYMERADWYWYD y papur ar Lywodraethu Diwedd Blwyddyn DCMS.

Camau nesaf

Cyfathrebwyd y penderfyniadau ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd ar 22 Mehefin 2022 ochr yn ochr â chopi o'r papur cyllid. Cytunodd Cadeirydd ARAC i ddosbarthu'r papurau Bwrsarïau TDM i'r Bwrdd a'r DCMS.

Cadarnhawyd mai 3 Awst 2022 oedd dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf ar ffurf rithwir.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir fel arall:
Cyfarwyddwyr ARAC
Arsyllwyr ARAC
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad dosbarthu i fynychwyr ARAC:	07 Gorffennaf 2022
Dyddiad dosbarthu:	03 Awst 2022